## Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd

Adroddiad ar y Bil Twf a Seilwaith - Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol (caniatâd cynllunio tybiedig ar gyfer cydsyniadau i gynhyrchu)

## Cyflwyniad

Ar 17 Ionawr 2013, ystyriodd y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd femorandwm cydsyniad deddfwriaethol sy'n ymwneud â darpariaethau yn y Bil Twf a Seilwaith sy'n ymwneud â chaniatâd cynllunio tybiedig ar gyfer cydsyniadau i gynhyrchu.

Cytunodd i roi gwybod i'r Cynulliad **nad oes ganddo wrthwynebiad i ddefnyddio'r cynnig cydsyniad deddfwriaethol hwn, fel y'i cynigiwyd gan Lywodraeth Cymru.**

Mae gweddill yr adroddiad hwn yn amlinellu'r cefndir i'r penderfyniad hwn.

Ceir lincs i'r holl ddogfennau y cyfeirir atynt yn y papur hwn yn yr adran olaf : 'Ffynonellau a gwybodaeth ychwanegol'.

## Cefndir

Mae Senedd y DU ar hyn o bryd yn ystyried Bil Twf a Seilwaith Llywodraeth y DU ('y Bil').

Diben rhai adrannau o'r Bil hwn yw deddfu mewn meysydd cymhwysedd sydd wedi eu datganoli i Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae'n ofynnol, yn ôl confensiwn, bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru ('y Cynulliad') yn ystyried cydsynio â hyn. Mae'r Cynulliad yn gwneud hyn drwy ystyried cynnig cydsyniad deddfwriaethol a gyflwynir gan Lywodraeth Cymru.

Mae rhagor o wybodaeth am gynigion cydsyniad deddfwriaethol i'w chael yn hysbysiad hwylus y Gwasanaeth Ymchwil *Cyfres y Cyfansoddiad: 6 - Cynigion Cydsyniad Deddfwriaethol*.

Mae'r cynnig cydsyniad deddfwriaethol wedi ei ddrafftio fel a ganlyn:

> Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 29.6, yn cytuno y dylai Senedd y DU ystyried y darpariaethau sy'n ymwneud â chaniatâd cynllunio tybiedig ar gyfer cydsyniadau i gynhyrchu o dan adrannau 36 a 37 o Ddeddf Trydan 1989, sydd wedi cael eu dwyn ymlaen yn y Bil Twf a Seilwaith, i'r graddau y maent yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru femorandwm cydsyniad deddfwriaethol ('y memorandwm') ar 13 Rhagfyr 2012 sy'n esbonio hyn mewn rhagor o fanylder.

Yn bennaf, mae'r memorandwm yn nodi bod y darpariaethau yn y Bil y ceisir cydsyniad ar eu cyfer wedi'u cynnwys yng nghymalau 19(1) i (4) (cydsyniadau o dan Ddeddf Drydan 1989: caniatâd cynllunio tybiedig), fel y'i cyflwynwyd i'r Senedd ar 18 Hydref 2012 a'i diwygio ar 12 Rhagfyr 2012. Mae Memorandwm Esboniadol Llywodraeth Cymru, ar gam, yn cyfeirio at gymalau 18(1) i (4).

Mae'r elfennau hyn o'r Bil yn ymwneud ag adrannau 36 a 37 o Ddeddf Drydan 1989, ac yn ceisio diwygio adran 90 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.

## Diben y polisi

Mae'r memorandwm yn nodi diben y polisi yn fwy manwl. Ceir crynodeb byr yn y blwch isod.

**Crynodeb o ddiben y polisi**

Mae'r memorandwm yn nodi bod:

'[...] y Bil yn diwygio adran 90 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 fel bod gan yr Ysgrifennydd Gwladol y pŵer i roi cyfarwyddyd naill ai i newid caniatâd cynllunio tybiedig sydd eisoes wedi'i roi neu i roi caniatâd cynllunio tybiedig newydd pan arferir naill ai y pŵer newydd i newid cydsyniad adran 36 neu'r pŵer sy'n bod eisoes i newid cydsyniad adran 37 yng Nghymru neu Loegr (gan gynnwys y dyfroedd sy'n ffinio â Chymru a Lloegr ac Ardal Ynni Adnewyddadwy). Mae awdurdodau lleol (a Gweinidogion Cymru sy'n galw ceisiadau i mewn) yn cadw eu pwerau i newid amodau caniatâd cynllunio tybiedig.'

**Barn y rhanddeiliaid**

Er mwyn helpu'r Pwyllgor i ystyried y memorandwm, mae'r Gwasanaeth Ymchwil wedi ceisio sylwadau anffurfiol gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ('CLlLC').

Ni fynegodd CLlLC unrhyw bryderon.

**Y broses ar gyfer ystyried y cynnig**

Nid oedd y Bil, fel y'i cyhoeddwyd, yn cynnwys y cymalau uchod y mae'n ofynnol cael cydsyniad deddfwriaethol y Cynulliad ar eu cyfer. Yn y fersiwn a gyflwynwyd, roedd y darpariaethau hyn yn berthnasol i Loegr yn unig. Cafodd y gwelliannau eu cyflwyno gan Lywodraeth y DU yn ystod y Trydydd Darlleniad yn Nhŷ'r Cyffredin. Gosodwyd y memorandwm cydsyniad deddfwriaethol gerbron y Cynulliad gan Lywodraeth Cymru ar 13 Rhagfyr 2012. Cafodd y gwelliannau i'r Bil eu cymeradwyo gan Dŷ'r Cyffredin ar 17 Rhagfyr 2012.

Mae'r Pwyllgor Busnes wedi trosglwyddo'r memorandwm hwn i'r Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd i'w ystyried. Wrth wneud hynny, mae dyletswydd ar y Pwyllgor Busnes i bennu amserlen ar gyfer ystyried y memorandwm.

Cytunodd y Pwyllgor Busnes y dylai'r Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd gyflwyno adroddiad ar y memorandwm erbyn 31 Ionawr 2013.

Bydd y Cynulliad yn trafod y cynnig cydsyniad deddfwriaethol yn y Cyfarfod Llawn ar 5 Chwefror 2012.

**Casgliad**

Nid yw'r dystiolaeth a gasglwyd yn gwrthddweud datganiad Llywodraeth Cymru yn y memorandwm, sef:

> 'Fel y saif pethau, nid oes gan yr Ysgrifennydd Gwladol y pŵer i newid caniatâd cynllunio tybiedig, felly dylid dilyn trefn Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (TCPA 1990) fel ag yn achos unrhyw ganiatâd cynllunio arall. Mae hynny'n golygu y caiff yr hyrwyddwr wneud cais i'r awdurdod cynllunio lleol er mwyn cael newid yr amodau cynllunio (adran 73 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990). Os bydd angen unrhyw beth arall arnynt (e.e. newid disgrifiad y datblygiad a ganiateir), yna cânt wneud cais i'r awdurdod cynllunio lleol am ganiatâd newydd. Gall y ddau opsiwn gymryd cryn amser a bod yn gostus i'r hyrwyddwr.

Trwy ddefnyddio'r Bil, caiff yr Ysgrifennydd Gwladol newid amodau'r caniatâd cynllunio tybiedig (neu roi un newydd) ochr yn ochr â'r newid i'r caniatâd adran 36 neu adran 37. Yn ein barn ni, mae hyn yn gam pragmatig i gefnogi amcanion polisi ynni Llywodraeth Cymru, hynny heb ragfarnu safiad cyffredinol Llywodraeth Cymru ynghylch cydsyniadau ynni.

Barn Llywodraeth Cymru yw mai priodol yw delio â'r darpariaethau hyn yn y Bil DU hwn gan mai hwnnw yw'r cyfrwng mwyaf priodol a chymesur i gymhwyso'r darpariaethau hyn i Gymru.'

Cytunodd y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd i roi gwybod i'r Cynulliad nad yw'n gwrthwynebu defnyddio'r cynnig cydsyniad deddfwriaethol hwn, fel y'i cynigiwyd gan Lywodraeth Cymru.

**Ffynonellau a gwybodaeth ychwanegol**

- Mae'r **memorandwm cydsyniad deddfwriaethol** ar gael yn: http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-business-fourth-assembly-laid-docs.htm?act=dis&id=241568&ds=1/2013

- Mae'r **Bil Twf a Seilwaith** ar gael ar wefan Senedd y DU: http://services.parliament.uk/bills/2012-13/growthandinfrastructure.html

- Mae **Deddf Drydan 1989** ar gael ar wefan legislation.gov.uk: http://www.legislation.gov.uk/ukpga/1989/29/contents

- Mae **Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990** ar gael ar wefan legislation.gov.uk: http://www.legislation.gov.uk/ukpga/1990/8/contents

- Mae Hysbysiad **Hwylus y Gwasanaeth Ymchwil** *Cyfres y Cyfansoddiad: 6 - Cynigion Cydsyniad Deddfwriaethol* ar gael yn: http://www.cynulliadcymru.org/qg07-0006.pdf

- Gellir gweld y **Rheolau Sefydlog** yn http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-assembly-guidance.htm (Mae Rheol Sefydlog 29 yn pennu'r broses ar gyfer ystyried memorandwm cydsyniad deddfwriaethol).